SWYDDFA **COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD** GOGLEDD CYMRU

OFFICE OF THE **POLICE & CRIME COMMISSIONER** NORTH WALES

**Cylchlythyr #32 SCHTh Gogledd Cymru – 3 Tachwedd 2023**
**OPCC North Wales Newsletter #32 – 3 November 2023**

## Creu rôl newydd er mwyn gweithio hefo pobl ifanc ac annog riportio trosedd

Mae Gweithiwr Allgymorth newydd gael ei benodi gan Crimestoppers hefo'r nod o gyflwyno eu prosiect Fearless yng Ngogledd Cymru. Mae'r swydd wedi cael ei chreu hefo cyllid o Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru er mwyn helpu annog pobl ifanc riportio trosedd yn y rhanbarth.

Derbyniodd Jason Evans, sy'n wreiddiol o Landudno, y swydd newydd sef Gweithiwr Allgymorth Ieuenctid Fearless yng Ngogledd Cymru ddechrau mis Hydref. Yn fwyaf diweddar, gweithiodd Jason i Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru fel rhan o'i waith hefo pobl ifanc, sgil y bydd yn ei chyflwyno i'w rôl newydd hefo Fearless.

Fearless ydy'r gwasanaeth penodol i ieuenctid gan Crimestoppers ac mae'n rhoi'r cyfle i bobl ifanc roi gwybodaeth am drosedd yn gyfan gwbl ddienw. Mae Fearless hefyd yn caniatáu pobl ifanc ddweud am drosedd drwy hyrwyddo gwasanaethau Crimestoppers, codi ymwybyddiaeth am yr hyn ydy trosedd, a thrwy chwalu rhwystrau riportio trosedd. Mae gan Crimestoppers dîm o Weithwyr Allgymorth Fearless ar draws y wlad sy'n ymweld ag ysgolion, clybiau ieuenctid a digwyddiadau amrywiol er mwyn rhoi gwybod i bobl ifanc a gweithwyr proffesiynol am eu gwasanaeth.

Fel rhan o'i waith newydd, bydd Jason yn cyflwyno sesiynau atal trosedd ac addysg Fearless i bobl ifanc a'r bobl hynny sy'n gweithio hefo pobl ifanc ar draws Gogledd Cymru. Ei waith fydd codi ymwybyddiaeth am brosiect Fearless ac addysgu pobl ifanc ar ganlyniadau trosedd, hefo sylw penodol ar linellau cyffuriau, troseddau cyllyll a'r Ymdriniaeth Gwylwyr. Mae hyn yn ein hannog ni weithredu ac atal niwed os ydy hi'n saff gwneud. **Darllenwch fwy.**



## Role created to work with young people & encourage crime reporting

An Outreach Worker has recently been appointed by Crimestoppers with the aim of rolling out its Fearless project in North Wales. The post has been created with funding from the office of the Police and Crime Commissioner for North Wales to help encourage young people to report crime in the region.

Jason Evans, originally from Llandudno, took up the new post of Fearless Youth Outreach Worker in North Wales at the start of October. Most recently Jason worked for North Wales Fire and Rescue Service as part of its work with young people, a skill which he'll bring to his new role with Fearless.

Fearless is the dedicated youth service from Crimestoppers and provides young people with the opportunity to give information about crime 100% anonymously. Fearless also allows young people to speak up about crime by promoting the services of Crimestoppers, by raising awareness of what constitutes a crime, and by breaking down the barriers to reporting crime. Crimestoppers has a team of Fearless Outreach Workers across the country who visit schools, youth clubs and various events to inform young people and professionals about their service.

As part of his new job, Jason will be delivering Fearless crime prevention and education sessions to young people and those working with young people across North Wales. He will be tasked with raising awareness of the Fearless project and educating young people on the consequences of crime, with a particular focus on County Lines, Knife Crime and the Bystander Approach – which encourages us all to take action and prevent harm if safe to do so.
**Read more here.**

---

## Sgowtiaid Saltney Ferry yn mynd ar waith hefo help arian cymunedol

Ar 31 Hydref, ymwelodd Andy Dunbobbin, Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru â Grwp Sgowtiaid Cyntaf Saltney Ferry er mwyn dysgu mwy am waith a gweithgareddau'r Sgowtiaid.

Gwelodd hefyd sut mae arian sy'n cael ei gymryd oddi ar droseddwyr yn cael ei ddefnyddio er lles pobl ifanc drwy eu galluogi nhw wersylla a mwynhau'r Awyr Agored.

Mae cronfa Eich Cymuned, Eich Dewis yn helpu prosiectau llawr gwlad ac mae'n derbyn help gan Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, Ymddiriedolaeth yr Heddlu a'r Gymuned Gogledd Cymru (PACT) a Heddlu Gogledd Cymru. Mae'r arian ar gyfer Eich Cymuned, Eich Dewis yn dod yn rhannol oddi wrth arian sydd wedi ei atafaelu drwy'r llysoedd drwy Ddeddf Enillion Troseddau gyda'r gweddill o Gronfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd.

Mae adran Sgowtiaid Saltney Ferry yn cynnal cyfarfodydd wythnosol, llawer o weithgareddau, a gwersylloedd i fechgyn a genethod 10 i 14 oed.  Maen nhw'n cyfarfod bob nos Wener yn Bradshaw Avenue yn Saltney Ferry. Ers pandemig Covid-19, mae'r grŵp wedi gweld cynnydd mawr mewn aelodau yn yr ardal, o 80 i 150. Daw llawer o gefndiroedd difreintiedig. Mae'r arian o Eich Cymuned, Eich Dewis wedi galluogi prynu pabell awyr agored o'r radd flaenaf ynghyd â chwe phabell hefo toiledau ac offer gwersylla eraill. **Darllenwch fwy yma.**



## Saltney Ferry Scouts get out and about with the help of community funding

On 31 October, North Wales Police and Crime Commissioner Andy Dunbobbin visited the 1st Saltney Ferry Scout Group to learn more about the Scouts' work and activities and to see how money taken from criminals is being used for the good of the young people by enabling them to go camping and enjoy the Great Outdoors.

The Your Community, Your Choice fund supports grass-roots projects and is backed by the North Wales Police and Crime Commissioner, North Wales Police and Community Trust (PACT) and North Wales Police. The funding for Your Community, Your Choice comes partly from money seized by the courts through the Proceeds of Crime Act, with the rest from the Police and Crime Commissioner.

Saltney Ferry Scouts section runs weekly meetings, a large number of activities, and camps for boys and girls aged from 10 to 14 years. They meet every Friday evening at Bradshaw Avenue in Saltney Ferry. Since the Covid-19 pandemic, the group has seen a massive uptake in participation in the area, growing from around 80 young people to nearly 150, many from disadvantaged backgrounds. The funding from Your Community, Your Choice has enabled the purchase of a premium outdoor mess tent together with six outdoor toilet tents and other camping related equipment. **Read more here.**

## Mae cyllid cymunedol yn helpu i gadw Gwynedd yn heini ac ymgysylltu

Ar 30 Hydref aeth Comisiynydd Heddlu a Throsedd (CHTh) Andy Dunbobbin i ymweld â darparwyr hamdden a chwaraeon Gwynedd sef Byw'n Iach yng Nghanolfan Byw'n Iach, Plas Ffrancon ym Methesda er mwyn dysgu sut mae arian o'r Gronfa Eich Cymuned, Eich Dewis yn cael ei ddefnyddio i hyrwyddo mentrau ar gyfer pobl yr ardal.

Yn dilyn adborth gan y gymuned mi wnaeth Byw'n Iach ddarganfod bod adnoddau chwaraeon yn cael eu hystyried yn ddrud ac yn anodd eu cyrraedd, gan arwain at ymddygiad gwrthgymdeithasol ymysg pobl ifanc a diffyg ymarfer corff ymysg teuluoedd ifanc.

Er mwyn mynd i'r afael â'r mater, mi wnaeth y sefydliad wneud cais i gronfa Eich Cymuned, Eich Dewis er mwyn dechrau prosiect i agor adnoddau chwaraeon ar draws 11 canolfan yng Ngwynedd yn ystod gwyliau'r ysgol. Roedd

Byw'n Iach yn llwyddiannus yn eu cais ac ers hynny maent wedi defnyddio'r arian i gyflogi staff ychwanegol i fonitro'r adnoddau a phrynu offer chwaraeon newydd. **Darllenwch fwy yma.**



## Community funding helps keep Gwynedd active and engaged

On October 30, Andy Dunbobbin visited Gwynedd leisure, sports and physical activity providers Byw'n Iach at Canolfan Byw'n Iach Plas Ffrancon in Bethesda to learn more about how funding from the Your Community, Your Choice fund is being used to promote healthy initiatives for the people of the county.

Following feedback from the Gwynedd community, Byw'n Iach discovered that local sports areas were considered expensive and inaccessible, leading to increased instances of antisocial behaviour amongst young people and lower levels of physical activity amongst local families.

To combat the issue, the organisation applied for Your Community, Your Choice funding to begin a project to open the sports facilities across the 11 leisure centres across Gwynedd during school holidays. Byw'n Iach were successful in their bid and have since used the funding to provide additional staff to monitor the facilities and purchase new sports equipment. **Read more here.**

---

## Cymhorthfa CHTh: Glannau Dyfrdwy

Bydd Andy Dunbobbin yn cynnal ei gyfarfod cymhorthfa nesaf yn Nglannau Dyfrdwy yn fuan. Bydd y cyfarfod yn galluogi pobl leol i drafod plismona yn eu cymunedau ac i godi unrhyw bryderon neu sylwadau sydd ganddynt gyda'r Comisiynydd a swyddogion heddlu lleol.

📍 Glannau Dyfrdwy - Canolfan Hamdden Glannau Dyfrdwy, Chester Road West, Queensferry, Glannau Dyfrdwy, Sir y Fflint, CH5 1SA
📅 22 Tachwedd 2023 | 2-4pm

A oes gennych chi ddiddordeb mewn siarad â'r Comisiynydd? **Archebwch le yma.**



## PCC Surgery: Deeside

Andy Dunbobbin will soon hold his next surgery meeting in Deeside. The meeting will enable local people to discuss policing in their communities and to raise any concerns or comments they might have with the Commissioner and local police officers.

📍 Deeside - Deeside Leisure Centre, Chester Road West, Queensferry, Deeside, Flintshire, CH5 1SA
📅 22 November 2023 | 2-4pm

Interested in speaking to the Commissioner? **Book a place here.**

---

### Erthyglau allweddol o'r cyfryngau | Key articles from across the media

- Prifysgol Wrecsam: Comisiynydd yn rhoi mewnwelediad i blismona yng Ngogledd Cymru i fyfyrwyr
- The Leader: North Wales Police and Arriva team up to tackle hate crimes *(Erthygl Saesneg)*
- Nation.Cymru: Police officers warned they will be 'driven out' of force for misconduct *(Erthygl Saesneg)*

**SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU | OFFICE OF THE POLICE & CRIME COMMISSIONER NORTH WALES**

Rydych chi'n derbyn yr e-bost hwn oherwydd eich bod wedi cofrestru i dderbyn ein e-byst cylchlythyrau.
You are receiving this email as you signed up to receive our newsletter updates.

Eisiau newid sut rydych chi'n derbyn yr e-byst hyn?
Cysylltwch â ni drwy socialmedia@northwales.police.uk i ddiweddaru eich dewisiadau neu ddad-danysgrifio o'r rhestr hon.

Want to change how you receive these emails?
Contact us via socialmedia@northwales.police.uk to update your preferences or unsubscribe from this list.

Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru
Pencadlys yr Heddlu
Glan y Don
Bae Colwyn
Conwy  LL29 8AW

Office of the Police and Crime Commissioner North Wales
Police Headquarters
Glan y Don
Colwyn Bay
Conwy  LL29 8AW

Gallwch ddarllen ein polisi preifatrwydd yma:
https://www.northwales-pcc.gov.uk/cy/polisi-preifatrwydd

You can read our privacy policy here:
https://www.northwales-pcc.gov.uk/privacy-policy